| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **17 Hydref 2016** |
| **Pwnc:** | **Ffoaduriaid Syria: Adroddiad cynnydd mewn perthynas â chyflwyno'r rhaglen adsefydlu a chefnogaeth** |
| **Deilydd (ion) Portffolio:** | **Y Cynghorydd Aled M Jones** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Shan Lloyd Williams** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Shan L Williams, Pennaeth Gwasanaethau Tai**<br>**01248 752201**<br>**Shanlloydwilliams@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | |

**A – Argymhelliad / Argymhellion a Rheswm / Rhesymau**

## Argymhellion

A1 nodi'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn
A2 cymeradwyo'r camau nesaf
A3 cymeradwyo argymhelliad y Swyddogion i'r Cyngor beidio â chymryd rhan yn y Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol ar gyfer Plant ar eu Pennau eu Hunain sy'n Ceisio Lloches. Yr argymhelliad yma i'w adolygu ymhen 12 mis.

## 1.0 Cyflwyniad

1.1 Mewn ymateb i'r nifer sylweddol o bobl sy'n ffoi o Syria ac yn cyrraedd fel ffoaduriaid yn yr UE, cytunodd y Cyngor yn ei gyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith ym mis Ebrill 2016 i gymryd rhan yn y Cynllun Adsefydlu Pobl Fregus o Syria (SVPRS) a chroesawu ffoaduriaid i Ynys Môn fel rhan o'r Cynllun Cenedlaethol. Cafwyd cefnogaeth unfrydol ar draws y Cyngor i'r rhaglen hon.

1.2 I grynhoi, argymhellion allweddol yr adroddiad oedd y byddai'r Cyngor yn ceisio dod o hyd i lety addas ac yn cynnig cefnogaeth yn y lle cyntaf i hyd at 30 o unigolion neu 10 o deuluoedd dros y 3 blynedd nesaf. Yn ystod blwyddyn 1, byddai'r Cyngor yn lletya hyd at 10 o unigolion, gan roddi blaenoriaeth i deuluoedd gyda phlant o oedran ysgol gynradd.

1.3 Byddai'r ffoaduriaid, gan ddibynnu ar argaeledd ac addasrwydd llety, yn cael eu cartrefu yn y sector rhentu preifat yn ardal Menai – ac yn fwy penodol, yn ardaloedd

Porthaethwy a Llanfairpwll.

1.4 Gwnaed argymhelliad hefyd y byddai swyddogion yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Gwaith ar gynnydd o ran cyflwyno'r rhaglen ailsefydlu a chymorth, 6 mis o'r cyfarfod a gynhaliwyd ym mis Ebrill, 2016.

**2.0 Cynnydd**

2.1 Roedd y gwaith paratoi cynnar a wnaed yn allweddol. Fe sefydlwyd gweithgor wedi ei gadeirio gan y Prif Weithredwr Cynorthwyol ac arno gynrychiolwyr o amrywiaeth o bartneriaid penodol gan gynnwys y trydydd sector, sydd wedi cefnogi swyddogion i wneud y gwaith sylfaenol cyn croesawu'r teulu cyntaf i Ynys Môn.

2.2 Roedd y ffrydiau gwaith allweddol i gyflwyno'r SVPRS ar lefel ymarferol yn cynnwys: -

- Nodi llety addas;
- Comisiynu gwasanaethau cymorth a chyfieithu priodol;
- Ystyried anghenion addysg Addysg ac Iechyd;
- Ymgynghori ynghylch cydlyniant cymunedol gyda phartneriaid ac ymgysylltu’n bennaf gyda phreswylwyr lleol, Aelodau Etholedig lleol a Chynghorau Cymuned a Thref.
- Cynnal trafodaethau manwl gyda chydweithwyr yn y Swyddfa Gartref.

2.3 Mewn gwirionedd, mae rheoli’r prosiect o baratoi ar gyfer y teulu cyntaf o Ffoaduriaid wedi cymryd llawer o amser ac wedi cael effaith ar ffrydiau gwaith eraill yn y Gwasanaeth Tai. Fodd bynnag, rydym o'r farn bod y gwaith a wnaed yn golygu bod y sylfeini yn eu lle i groesawu ychwaneg o deuluoedd o Ffoaduriaid o Syria i Ynys Môn yn y dyfodol.

2.4 Mae'r cartref ar gyfer ein teulu cyntaf wedi cael ei ddarparu gan landlord yn y sector rhentu preifat, ac mae wedi bod yn hynod gefnogol. Rheolwr y Tîm Opsiynau Tai fu’n arwain ar y gwaith o negodi telerau ac amodau, gosodiadau a ffitiadau a sicrhau bod yr holl wasanaethau a threfniadau cytundebol angenrheidiol yn eu lle ac yn cael eu darparu ar amser.

2.5 Mae’r Heddlu a’r Cydlynydd Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol hefyd wedi chwarae rhan allweddol o ran sicrhau bod y lleoliad yn addas a swyddogion o’r Adran Addysg a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr hefyd wedi paratoi ar gyfer lleoliadau ysgol a chofrestru gyda meddygfa leol.

2.6 Yn ogystal, gweithio gyda'r grŵp gwirfoddol *‘Pobl i Bobl’* oedd canolbwynt y cynigion o gefnogaeth gymunedol. Mae'r grŵp hwn hefyd wedi helpu i ddod o hyd i ddodrefn o ansawdd ar gyfer y cartref, a chyfeirio’r teulu at gefnogaeth leol.

2.7 Mae Rheolwr y Tîm Opsiynau Tai a'r Swyddog Cymorth penodedig hefyd wedi bod yn allweddol o ran helpu'r teulu gyda thasgau byw bob dydd megis dangos iddynt sut i ddefnyddio'r gwres, trydan, band eang, sicrhau bod ganddynt ddigon o fwyd yn y tŷ, eu helpu i agor cyfrif banc a hawlio budd-daliadau.

2.8 Mae'r teulu o bedwar wedi bod yn eu cartref newydd ers diwedd mis Awst ac wedi setlo i mewn yn dda. Mae'r plant yn yr ysgol, yn hapus ac yn dod yn eu blaenau'n dda. Mae gwasanaeth cyfieithydd cymwys wedi'i gomisiynu i gynorthwyo yn yr ysgol ac i helpu'r teulu ddechrau integreiddio yn y gymuned leol.

2.9 Mae darparu Swyddog Cymorth penodedig wedi cael effaith sylweddol o ran helpu'r teulu i setlo yn y gymuned a bydd yn hanfodol yn y dyfodol i helpu gyda integreiddiad y teulu hwn a theuluoedd eraill o Syria.

2.10 Mae'r Swyddog Cymorth wedi bod yn mynd hefo'r teulu am ddiwrnodau allan ar draws yr Ynys, yn eu cyflwyno i'r diwylliant lleol. Mae'r teulu yn awyddus i ddysgu am ddiwylliant ein gwlad, yr iaith Gymraeg ac yn awyddus iawn i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol lleol. Mae'r tad eisoes wedi dechrau gwirfoddoli gyda mudiad gwirfoddol lleol.

2.11 Mae'r gefnogaeth a gafwyd a phrofiadau a rannwyd gydag Awdurdodau Lleol eraill wedi bod yn werthfawr, ynghyd â'r gefnogaeth 'r bwletinau rheolaidd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

**3.0 Heriau**

i. Yr her fwyaf hyd yn hyn oedd dod o hyd i lety rhent preifat addas yn ardaloedd Porthaethwy a Llanfairpwll ardaloedd Menai, a nodwyd yn wreiddiol fel yr ardaloedd i'w targedu.
i.ii. Argaeledd llefydd yn yr ysgolion cynradd lleol yn yr ardaloedd.
i.iii. Mae'r wybodaeth gyfyngedig sydd ar gael yn y 'cipluniau' a gyhoeddwyd ymlaen llaw gan y Swyddfa Gartref, yn gwneud paratoi yn fwy anodd.
/.iv. Mae rheoli'r prosiect a chefnogi'r prosiect yn draul ar amser. Mae'n rhaid cyflogi swyddog cymorth rhan-amser dynodedig ar gyfer oes y rhaglen. Y Swyddfa Gartref sy'n cwrdd â'r costau sy'n gysylltiedig â'r rhaglen SVPRS.

**4.0 Ceisiadau i adsefydlu plant ar eu pennau eu hunain sy'n ceisio lloches**

4.1 Mae ceisiadau gan y Swyddfa Gartref i awdurdodau lleol ar draws y DU i adsefydlu plant sydd ar eu pennau eu hunain ar gynnydd. Mae dwy raglen benodol, sef:
Y Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol ar gyfer Plant ar eu Pennau eu Hunain sy'n Ceisio Lloches Plant (UASC) a'r Rhaglen Adsefydlu Plant Bregus (VCRP).Gweler Atodiad 1 am fwy o fanylion.

4.2 Derbyniwyd llythyr dyddiedig 30/08/16 gan y Llefarydd dros Dai a'r Iaith Gymraeg yng Nghymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn gofyn i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru drafod ac *"ystyried a fedr, ac ym mha fodd y gall eich awdurdod ymateb i'r ceisiadau am help a chyfranogiad gan y Swyddfa Gartref, yn enwedig o ran y Cynllun Trosglwyddo UASC Cenedlaethol* ".

4.3 Mae swyddogion wedi trafod y cais hwn ac yn argymell i'r Pwyllgor Gwaith na ddylai'r Cyngor gymryd rhan yn yr UASC na'r VCRP. Mae'r rhesymau wedi'u nodi isod:

- Mae'r Cyngor eisoes yn derbyn nifer uchel o blant ar eu pennau eu hunain sy'n dod trwy'r porthladd yng Nghaergybi;
- Nid yw'r Cyngor yn gallu diwallu eu hanghenion iaith a diwylliant, ac yn aml (os nad ar bob achlysur) mae plant sydd ar eu pennau eu hunain yn cael eu lleoli gyda gofalwyr maeth y tu allan i'r sir. O ganlyniad, maent yn colli eu cartref pan gânt eu lleoli'n all-sirol ond, yn ychwanegol at hynny, mae'n gwneud y cyswllt gydag unrhyw ardal a'r ymdeimlad o fod yn perthyn yn anodd;
- Yn aml, nid ydym yn gallu cael mynediad at wasanaethau priodol - bydd y plant hyn wedi dioddef trawma. Nid oes gennym y gwasanaethau na'r arbenigedd i ymateb.

**5.0 Camau Nesaf**

i. i. Rydym yn disgwyl croesawu ein hail deulu o Syria cyn y Nadolig.
ii.ii. Ar hyn o bryd, mae'r swyddogion yn chwilio am eiddo addas yn yr ardal rhwng Porthaethwy a Llandegfan. Unwaith eto, eiddo yn y sector rhentu preifat fydd hwn.
iii.iii. Bydd swyddogion yn parhau i weithio gyda'r Gwasanaeth Addysg a Phenaethiaid Ysgolion Cynradd er mwyn gweld lle mae'r llefydd gweigion er mwyn llywio'r broses o ddewis y teulu nesaf o Borth y Swyddfa Gartref.

| **B - Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Y Pwyllgor Gwaith wnaeth y penderfyniad gwreiddiol i gymryd rhan yn y rhaglen SVPRS, gyda chais i adrodd ar gynnydd mewn 6 mis. |

| **C - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| |

| **D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Y Swyddfa Gartref sy'n talu'r cyfan o'r costau |

| **E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (SLT)** (Gorfodol) | Trafodwyd gan Yr Uwch Dim Arwain 19/09/16 |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (Gorfodol) | Dim sylwadau pellach |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (Gorfodol) | |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Dylai unrhyw benodiadau i swyddi fod yn amodol ar brosesau recriwtio ac egwyddorion y Cyngor. |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Sgriwtini** | |
| **8** | **Aelodau lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / eraill** | |

| **E - Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrth-dlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniadau** | |
| 7 | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Atodiad 1 |

| **FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| Adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith Ebrill 2016 |

## Atodiad 1

## Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol ar gyfer Plant ar eu Pennau eu Hunain sy'n Ceisio Lloches (UASC)

Ar 1 Gorffennaf, lansiodd Llywodraeth y DU eu Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol i annog pob awdurdod lleol i gymryd rhan yn wirfoddol mewn trefniadau trosglwyddo rhwng awdurdodau i ofalu am UASC sy'n cyrraedd yn y DU ac sy’n ceisio lloches er mwyn sicrhau bod y cyfrifoldeb o ofalu amdanynt yn cael ei rannu’n fwy cyfartal ar draws y DU. Dan y Cynllun, gall plentyn sy’n cyrraedd mewn ardal awdurdod lleol sydd eisoes dan straen yn gofalu am UASC gael eu trosglwyddo i awdurdod arall sydd yn meddu ar gapasiti. I gefnogi’r Cynllun, bydd y Llywodraeth yn darparu cyllid i awdurdodau lleol sy'n gofalu am UASC, a byddant yn derbyn £41,610 y flwyddyn i gefnogi pob plentyn sydd dan 16 oed. Cydlynodd WSMP ddigwyddiad ym mis Gorffennaf i awdurdodau lleol Cymru i egluro'r cynllun a chlywed gan uwch swyddogion o’r Swyddfa Gartref. Roedd Cyngor Caint hefyd yn bresennol i esbonio'r pwysau sydd arnynt ar hyn o bryd (maent yn lletya oddeutu 900 UASC ar hyn o bryd) a'r angen i awdurdodau lleol eraill chwarae eu rhan i leddfu’r pwysau hyn ac i ddysgu o'u profiad. Mae'r Cynllun Trosglwyddo UASC eisoes yn weithredol yn Lloegr gyda rhai UASC eisoes wedi cael eu trosglwyddo rhwng awdurdodau ac mae'r Swyddfa Gartref yn awyddus i gymryd rhan mewn trafodaethau pellach ac i glywed am unrhyw addewidion y mae awdurdodau Cymru yn barod i’w gwneud. Mae rhagor o fanylion ar gael gan www.local.gov.uk )